

## PRIFFYRDD, CYMRU

### 2014 Rhif

#### DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

#### GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (FFORDD GLYNDWR, ABERYSTWYTH) 2014

*Gwnaed* 4 Awst 2014

*Yn dod i rym* 13 Awst 2014

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990<sup>(1)</sup>.

#### Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Ffordd Glyndwr, Aberystwyth) 2014.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Sir Ceredigion;

ystyr "y datblygwr" ("*the developer*") yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac

ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan sy'n dwyn yr enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Ffordd Glyndwr, Aberystwyth) 2014" sy'n mynd gyda'r Gorchymyn hwn.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990.

#### Cau Priffyrdd

2. Yn ddarostyngedig i erthyglau 3, 4, 5 a 6, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni ei bod yn angenrheidiol cau'r briffordd i alluogi'r datblygiad i gael ei wneud yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan y Cyngor, ar 18 Rhagfyr 2013 o dan y cyfeirnod A130640 fel y'i disgrifir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

### **Priffyrdd newydd / wedi eu gwella**

3. Crëir, er boddhad rhesymol y Cyngor, y briffordd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2 ac a ddangosir gan ddotwaith ar y plan a adnewyd, a'r briffordd y gwneir gwelliannau iddi a ddisgrifir yn Atodlen 3 ac a ddangosir â chroeslinellau ar y plan a adnewyd, a bydd y priffyrdd hyn, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980(2), yn briffyrdd sydd i'w cynnal ar draul y pwrs cyhoeddus. Y Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd ar eu cyfer.

### **Y Darpariaethau sy'n Angenrheidiol neu'n Hwylus cyn Cau'r Priffyrdd ac ar gyfer Darparu neu Wella'r Priffyrdd**

4. Ni chaniateir i'r rhan o briffordd yn Atodlen 1 gael ei chau:-

- (a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos drwy ba fodd y bwriedir cau'r rhan o briffordd;
- (b) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu'r priffyrdd newydd ac wedi eu gwella a ddisgrifir yn Atodlenni 2 a 3, er boddhad rhesymol y Cyngor;
- (c) hyd nes y bydd y datblygiad yn Atodlen 4 wedi ei ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r briffordd i alluogi'r datblygiad i fynd rhagddo; a
- (ch) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod paragraffau (a), (b) ac (c) wedi eu bodloni.

### **Ymgwymerwyr Statudol a Darparwyr**

5. Pan fo gan ymgwymerwyr statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws, yn union cyn cau'r rhannau o briffordd, yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990) bydd gan yr ymgwymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau o hyd mewn cysylltiad â'r offer ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

### **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

6. Os na fydd y datblygiad yn Atodlen 4 wedi ei ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan 3 o Ddeddf 1990 fel cyfnod para'r caniatâd cynllunio, neu os yw'r caniatâd yn cael ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â chael effaith pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 4 Awst 2014

*R Morgan*

## **R MORGAN**

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

- (1) 1990 p.8. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac maent bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30(2) o Atodlen 11 iddi.
- (2) 1980 p.66

### **YR ATODLENNI**

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

#### **ATODLEN 1**

##### **Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn**

Rhan afreolaidd ei siâp ar ffin ogledd-orllewinol y briffordd o'r enw Ffordd Glyndwr yn Aberystwyth, sydd â'i hyd mwyaf yn 68 o fetrau, a'i lled mwyaf yn 16 o fetrau, a chyfanswm ei harwynebedd yn 810 o fetrau sgwâr.

#### **ATODLEN 2**

##### **Disgrifiad o'r briffordd newydd sydd i'w darparu**

Rhan sydd fwy neu lai yn betryal (sydd ar hyn o bryd yn cynnwys rhan o'r Drill Hall yn Ffordd Glyndwr) sy'n cyffinio â ffin ogledd-orllewinol bresennol y briffordd o'r enw Ffordd Glyndwr yn Aberystwyth sydd â'i hyd ar y mwyaf yn 45 o fetrau, a'i lled ar y mwyaf yn 1.9 metr a chyfanswm ei harwynebedd yn 74 o fetrau sgwâr.

#### **ATODLEN 3**

##### **Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w gwella**

Rhan afreolaidd ei siâp ar ffin dde-ddwyreiniol y briffordd o'r enw Ffordd Glyndwr yn Aberystwyth, sydd â'i hyd mwyaf yn 140 o fetrau, a'i lled mwyaf yn 15 metr, a chyfanswm ei harwynebedd yn 644 o fetrau sgwâr.

## **ATODLEN 4**

### **Y Datblygiad**

Cynnig defnydd cymysg yn cynnwys dymchwel, codi dwy siop fanwerthu Dosbarth 1, wyth rhandy, maes parcio i 555 o leoedd a gwaith atodol ym Maes Parcio Dan Dre, Aberystwyth.

## **DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

### **GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (FFORDD GLYNDWR, ABERYSTWYTH) 2014**

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (“y Ddeddf”), i awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn, i ddarparu ar gyfer y rhan newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn ac i wella'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn.

Awdurdodir cau'r briffordd i alluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 4 i gael ei gynnal. Bydd y Gorchymyn Cau Priffyrdd (Ffordd Glyndwr, Aberystwyth) 2014 (“y Gorchymyn”) yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopiau o'r Gorchymyn a'r plan a adnewyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn Llyfrgell Aberystwyth, Neuadd y Dref, Maes y Frenhines, Aberystwyth, SY23 2EB neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1141061/1.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

- a. nad yw o fewn pwerau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; neu
- b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol y Ddeddf,

o fewn 6 wythnos i 13 Awst 2014, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn [www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk) (Detholer: ‘Deddfwriaeth’, ‘Is-ddeddfwriaeth’, ‘Offerynnau Anstatudol’, ‘Trafnidiaeth, Cymru’,

'Deddf Cynllunio Gwlad a Thref: Gorchmynion Cau',  
'2014').

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn  
oddi wrth: Y Gangen Orchmynion,  
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc  
Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

*M D Burnell*

**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

## **YR ATODLENNI**

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

### **ATODLEN 1**

**Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau o dan  
y Gorchmyn hwn**

Rhan afreolaidd ei siâp ar ffin ogledd-orllewinol y  
briffordd o'r enw Ffordd Glyndwr yn Aberystwyth,  
sydd â'i hyd mwyaf yn 68 o fetrau, a'i lled mwyaf yn  
16 o fetrau, a chyfanswm ei harwynebedd yn 810 o  
fetrau sgwâr.

### **ATODLEN 2**

**Disgrifiad o'r briffordd newydd sydd i'w darparu**

Rhan sydd fwy neu lai yn betryal (sydd ar hyn o bryd  
yn cynnwys rhan o'r Drill Hall yn Ffordd Glyndwr)  
sy'n cyffinio â ffin ogledd-orllewinol bresennol y  
briffordd o'r enw Ffordd Glyndwr yn Aberystwyth  
sydd â'i hyd ar y mwyaf yn 45 o fetrau, a'i lled ar y  
mwyaf yn 1.9 metr a chyfanswm ei harwynebedd yn  
74 o fetrau sgwâr.

### **ATODLEN 3**

**Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w gwella**

Rhan afreolaidd ei siâp ar ffin dde-ddwyreiniol y  
briffordd o'r enw Ffordd Glyndwr (i fod yn Rhodfa  
Glyndwr pan gaiff y datblygiad ei wneud) yn  
Aberystwyth sydd a'i hyd mwyaf yn 140 o fetrau, a'i  
lled mwyaf yn 15 metr, a chyfanswm ei harwynebedd  
yn 644 o fetrau sgwâr.

### **ATODLEN 4**

**Y Datblygiad**

Cynnig defnydd cymysg yn cynnwys dymchwel, codi

dwy siop fanwerthu dosbarth 1, wyth rhandy, maes parcio i 555 o leoedd a gwaith atodol ym maes parcio dan dre, aberystwyth yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd o dan ran 3 o ddeddf 1990 gan y cyngor, ar 18 rhagfyr 2013 o dan gyfeirnod a130640.